

Trefn Gwyno Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Gweithdrefn yw hon i ddelio â chwynion mewn perthynas â rhoi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor).

Mae'r weithdrefn yn gymwys i unrhyw sy'n ystyried nad yw'r awdurdod wedi delio'n briodol â'u cais neu sy'n anfodlon â chanlyniad y broses o ystyried eu cais o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Cyn gwneud cwyn, awgrymir eich bod yn cysylltu â'r swyddog sy'n delio â'ch cais rhag ofn mai mater o gamddealltwriaeth neu amryfusedd sydd dan sylw ac y gellir datrys y broblem yn gyflym.

Y drefn gwyno:-

1. Dylid gwneud cwyn ysgrifenedig a'i anfon at y Swyddog Cwynion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Gwasanaethau Democraidd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug neu ei anfon drwy e-bost at rga@siryfflint.gov.uk gan roi holl fanylion eich cwyn. Rhaid gwneud hyn cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl y digwyddiad honedig o fethu â chydymffurfio â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
2. Caiff eich cwyn ei gyfeirio at swyddog cwynion a fydd yn cynnal adolygiad mewnol o'r ymateb gwreiddiol i'ch cais. Nid y person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol fydd hwn, ond un o uwch swyddogion y Cyngor.
3. Gorchwyl cyntaf y swyddog cwynion ar ôl darllen eich cwyn fydd anfon cydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch a fydd yn nodi dyddiad targed ar gyfer ei benderfyniad. Os na chaiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn y dyddiad targed, cewch lythyr arall bryd hynny'n egluro'r rhesymau dros yr oedi ac yn pennu dyddiad newydd. Bydd y Cyngor yn delio â'ch cwyn cyn gynted â phosibl a chyn pen 40 diwrnod gwaith fan bellaf ar ôl derbyn y gŵyn.
4. Yn dilyn yr adolygiad mewnol, cewch ymateb ysgrifenedig i'ch cwyn a fydd yn dweud wrthyfch fod gennych hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn dal yn anfodlon. Cyfeiriad y Comisiynydd Gwybodaeth yw : Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.
5. Nod y drefn gwyno yw darparu proses adolygu mewnol sy'n deg, yn ddiduedd, yn glir ac yn syml ac a gaiff ei chynnal yn gyflym.